




Dŵr



CAMAU DATBLYGU WRTH DYWALLT A LLENWI

Gofalwch fod tymheredd y dŵr yn gyfforddus a'i fod yn ddigon dwfn ar gyfer yr adnoddau.

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH GAN OEDOLYN AC ADNODDAU

Codi dŵr mewn cynhwysyddion.

Oedolyn – Annog y plentyn i gadw'r dŵr yn y pwll ddŵr.

Adnoddau – Cynhwysyddion bach â gyddfau llydan.



Trosglwyddo dŵr rhwng dau gynhwysydd heb sylwi llawer ar y canlyniad.

Oedolyn – Hybu cydsymud rhwng y llaw a'r llygad a chywirdeb cynyddol.

Adnoddau – Cynhwysyddion bach â gyddfau llydan



Ymchwilio i lenwi a gwagu amrywiaeth eang o adnoddau gan roi sylw cynyddol i'r canlyniadau.

Oedolyn – Cynorthwyo'r plentyn mewn modd sensitif. Darparu amrywiaeth eang o adnoddau. Annog plant i wagu'r botel yn y pwll dŵr.

Adnoddau – Jygiau, poteli, biceri, twmffedi, olwynion dŵr a.y.y.b..



Llenwi un botel i'r ymylon drwy ei dal o dan y dŵr. Ei gwagu a'i llenwi eto.

Oedolyn – Cynorthwyo'r plentyn i ddal potel o dan y dŵr nes bod y swigod aer wedi peidio ac mae'r botel yn llawn. Tynnu sylw at ystyr 'llawn' a 'gwag'.

Adnoddau – Poteli plastig clir o wahanol feintiau.



CAMAU DATBLYGU WRTH DYWALLT A LLENWI

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH GAN OEDOLYN AC ADNODDAU

Trosglwyddo dŵr rhwng cynhwysyddion â gyddfau cul â chywirdeb cynyddol.

Oedolyn – Dangos sut, a chynorthwyo'r plentyn i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau.
Adnoddau – Poteli, cynhwysyddion â gyddfau cul.



Defnyddio adnoddau soffistigedig i symud dŵr heb dywallt dim.

Oedolyn - Dangos sut, a chynorthwyo'r plentyn i drosglwyddo dŵr yn ofalus
Adnoddau – Pipedi, twmffedi, chwistrelli, peipiau, cafnau, bwcedi, cariwr dŵr, padelli adeiladwyr ('tuff spot'), caniau dŵr, llestri te (yn ychwanegol ar chwarae rôl).



Defnyddio profiad blaenorol o dywallt a llenwi mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Oedolyn- Helpu'r plentyn i gymhwyso'r hyn a ddysgodd eisoes i sefyllfaoedd newydd.
Adnoddau – Amrywiaeth eang o adnoddau.

